

# Philip Lloyd yn cydymdeimlo â Daniel dan Bwysau

Mae pawb sy'n cyfrannu i dudalennau'r *Casglwr* yn gyfarwydd â 'deadlines'. Gofynnir i ysgrifau gael eu cyflwyno i Mel Williams erbyn y dyddiad-a'r-dyddiad. Yna, rhaid i Mel gysodi a dylunio'r cyfan ar ei gyfrifiadur a'i drosglwyddo i Wasg Gwynedd i'w argraffu. Ac ymlaen, ac ymlaen, yr un fath, o rifyn i rifyn.


Felly roedd hi ar Daniel Owen. Er ein bod yn gyfarwydd â darllen ei weithiau rhwng clortau caled, rhaid cofio i'w dair nofel fawr ymddangos gyntaf fesul pennod mewn cyhoeddiadau wythnosol neu fisol. Roedd yr enwog Charles Dickens yr un mor gyfarwydd â chyflenwi penodau o'i nofelau yntau i olygyddion yn rheolaidd (bu am gyfnod yn olygydd ar gylchgrawn, gan gyhoeddi ei nofelau ei hun ynddo). Ond, ac yntau'n awdur amser-llawn a llwyddiannus, roedd mewn sefyllfa i fynnu ei delerau ei hun, yn ariannol ac fel arall.

Bu Daniel Owen dan bwysau gan olygyddion, yn aml, i gyflenwi deunydd i gyfarfod â'u deadlines hollbwysig. Cyhoeddwyd Hunangofiant Rhys Lewis, ei nofel fawr gyntaf, yn Y Drysorfa (misolyn y Methodistiaid Calfinaidd) i ddechrau, rhwng 1882 a 1884. Y Golygydd oedd y Parchedig Roger Edwards, Gweinidog Bethesda, Yr Wyddgrug (y capel yr oedd Daniel Owen yn aelod ohono).

Mae Daniel Owen yn cyfeirio at y cyfnod yma mewn hunangofiant byr a gyhoeddwyd yn *Y Cymro* ym 1891. Atgynhyrchir tudalen olaf y llawysgrif yma.<sup>1</sup> Yn y pedair llinell a hanner cyntaf mae'n cwyno am fynych ofnyon y golygydd: 'Ni chefais lonydd wedi hyn gan Mr Edwards...'. Rhag ofn y cewch drafferth i ddehongli'r llawysgrifen, ceir trawsgrif o'r cri yma o'r galon yn y nodiadau ar ddiwedd yr ysgrif hon.<sup>2</sup>

Mae gweddill y dudalen ('Wedi ei chwblhau...') yn sôn am yr argraffiad cyntaf o Rhys Lewis ar ffurf llyfr (argraffydd: J.L.Morris, Yr Wyddgrug, 1885) ac am werthu'r hawlfraint i Gwmni Hughes a'i Fab ar gyfer ail argraffiad (1886) a throsiad Saesneg (1888). Ceir trawsgrif o'r brawddegau hyn yn y nodiadau hefyd.<sup>3</sup>

Dychwelaf at benodau misol Rhys Lewis yn *Y Drysorfa*. Roedd Ellis Edwards (mab Roger



Daniel Owen (1836-95)

Edwards) wedi bod yn gyfaill bore oes i Daniel Owen yn Yr Wyddgrug ac yn gyd-efrydydd iddo yng Ngholeg Y Bala. Ond erbyn hyn roedd yn bennaeth ar ei Alma Mater. Ac ym mis Hydref 1883, dyma'r awdur yn gofyn yn wylaidd iddo mewn llythyr: 'Onid ydych - yn onest yrwan - yn meddwl fod Rhys Lewis yn fflagio?'.

Mae'n ymbil arno: 'Da chwi perswadiwech eich tad i adael lloynydd i mi. Pe buasai genyf amser gwn y gallaswn ysgrifenu yn well - ond mor anhawdd ydyw cael eich hunan i ffrâm yn nghanol helynt business! Teimlaf fy mod yn gorfol rhoi jerk i mi fy hun wrth ddechreu ysgriblio'.<sup>4</sup>

Ond, rywsut neu'i gilydd, fe lwyddodd i roi 'jerk' iddo i hun (am lawer mis arall). Cyflwynodd Ragarweiniad a 37 pennod i gyd i'r Golygydd, i'w cynnwys yn y 36 rhifyn o'r Drysorfa a gyhoeddwyd ym 1882, 1883 a 1884. Yna, ychwanegodd bum pennod arall erbyn cyhoeddi'r llyfr ym 1885.<sup>5</sup>

### Y Bennod Olaf yn fy Hanes

Ymddangosodd Profedigaethau Enoc Huws (ail nofel fawr Daniel Owen) fesul pennod wythnosol yn *Y Cymro* i ddechrau, rhwng Mai

1890 a Mehefin 1891. Yna, fe'i cyhoeddwyd yn gyfrol gan Gwmni Hughes a'i Fab, Wreacas yn ddiweddarach ym 1891. Ond erbyn hyn roedd y Nofelydd wedi mynd i boeni'n arw am ei iechyd. Mae hyn yn amlwg yn ei llythyrat at Isaac Foulkes, Golygydd *Y Cymro*, parthed ei nofel olaf, Gwen Tomos.

Mewn llythyr dyddiedig Mawrth 15fed 1892, mae'n sôn am annwyd a'i cadwdd yn y tŷ am bythefnos: 'Yr oeddwn braidd yn ofni fy mod wedi cyrraedd y bennod olaf yn fy hanes, ond dywed y meddygon nad ydyw y "diciâu" wedi dechrau arnaf eto'. Am ei Gwen Tomos arfaethedig, mae'n cyfaddef: 'Yr wyf wedi ysgrifenu amryw desgriafiadau o gymeriadau ac amgylchiadau, ond nid oes genyf eto idea sut i'w cylymu a'u gilydd nac un dychymyg sut i roi ffurf stori arnynt'.<sup>6</sup>

Wyth mis yn ddiweddarach (Tachwedd 6ed, 1892): 'Mae yn ddrwg iawn genyf ddwyed fy mod eto hyd yn hyn heb gael dim goleu ar y chwedl - ni ysgrifenis byth ohoni. Ond hwyrach y daw goleu ryw dro. Pe gwelwn ryw beth tebyg i gynllun, gallwn fyn'd ym mlaen yn weddol wed'yn. Gwelaf na fedrwn ddechreu cyhoeddi am y rhawg; ond os dechreuir ryw dro, pery am flwyddyn'. Yn ei ddigalondid, mae'n awgrymu hyd yn oed: 'Oni allech gael caniatâd Thomas Hardy i gyfaddasu *The Mayor of Casterbridge*'?.

Wrth drafod y llythyrau hyn a rhai eraill yn y bywgraffiad, mae Foulkes yn barnu: 'Ryw fodd yr oedd ganddo ofn na fyddai nofel Gwen Tomos i fynu â safon ei lyfrau eraill; a phryderai yn barhaus yn ei chylch... dichon fod yr afiechyd, yr hwn erbyn hyn oedd yn dechreu pwyso yn ddwys ar ei feddwl, a wnelai â'i bryderon'.<sup>7</sup>

Beth bynnag, ymddangosodd y bennod gyntaf o *Gwen Tomos* yn *Y Cymro* ar Ebrill 20fed 1893. Ond wythnos union ynghynt roedd Daniel Owen yn llythyr'n gwynfanllyd: 'Dim progress gyda'r nofel, am fy mod wedi bod yn lled wael a digalon... Nis gwn beth a ddaw o'r chwedl. Rhaid imi gael rhyw yspryd newydd o rywle neu bydd yn siwr o fy robio o hyn o glod a feddaf. Yr oeddwn yn chwysu yn ddyferol wrth eich gwleud yn ei hadferteisio mor helaeth'.


### Gofyn (a gwrthod) barn

Ond er gwaethaf pryderon y Nofelydd am ei iechyd a'i enw da, ceir mewn llythyr arall oddi wrtho fynegiant annisgwyl o hunan hyder (a mwy). Wrth gyflwyno rhan o *Gwen Tomos* i sylw Isaac Foulkes ddiwedd Chwefror 1893, mae'n gofyn yn daer iddo: 'ei darllen yn weddol fanwl, a rhoi eich barn ddidderbynyneb am dani. Gwyddoch fod genyf yn awr dipyn o enw, a gwel genyf fyddai peidio cyhoeddi y nofel hon os yw yn wael iawn'.

Mae Isaac Foulkes yn ufuddhau i'w gais. Ond daw ymateb annisgwyl (dyddiedig Mawrth 15fed) yn y post: 'yr wyf wedi synu a chwerthin tipyn. Mae ynddi rai pennodau y bydd arnaf gywilydd eu gwleud mewn argraff, ond am y rhan a ystyriwch chwi yn wan dyna y than oreu genyf fi!! Dengys hyn nad oes genyf farn am fy ngwaith fy hun'.

I gyfiawnhau ei safiad, mae'n dwyn i gof: 'pan hysbysais fy mwriad i gyhoeddi *Rhys Lewis* - derbyniais archeb ar unwaith gan D.

(Parhâd ar y dudalen nesaf)



Hunangofiant Daniel Owen : y dudalen olaf o'r llawysgrif